Fe fyddwch yn cael gwybod am y canlyniad o fewn 20 diwrnod gwaith i ni dderbyn yr apêl.

Fe fydd y panel yn rhoi gwybod i chi os bydd angen mwy o amser arnynt i ddod i benderfyniad.



Os ydych chi wedi dilyn y camau yma ac yn dal yn anfodlon ar y penderfyniad . . .

Gall yr Ombwdsman Carcharau a Phrawf adolygu eich cŵyn os ydych chi:

- Wedi bod dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.
- Wedi cael eich cadw mewn llety prawf.
- Wedi cael adroddiad cyn dedfrydu neu adroddiad dedfrydu penodol amdanoch chi.



WELSH

This leaflet is available in other languages.

Please ask if you would like it in a different language.

Mae'r daflen hon ar gael mewn ieithoedd eraill.

Gofynnwch os hoffech ei chael mewn iaith arall.

Este folleto puede obtenerse en otros idiomas.

No dude en solicitarlo, si desea recibirlo en otro idioma.

تتوفر هذه الكراسة بلغات أخرى

الرجاء الاستفسار عن ذلك إن كنت تريدها بلغة أخرى.

這資料單張有其他語文的版本。

若您有需要其他語文的版本，可以提出要求。

यह पत्रक अन्य भाषाओं में उपलब्ध है।

अगर आप इसे अन्य भाषा में चाहते हैं तो कृप्या इसके लिए पूछें।

ਇਹ ਪਰਚਾ ਹੋਰ ਭਾਸ਼ਾਵਾਂ ਵਿਚ ਮਿਲਦਾ ਹੈ।

ਕਿਰਪਾ ਕਰਕੇ ਮੰਗ ਲਉ ਜੇ ਤੁਸੀਂ ਇਸ ਨੂੰ ਹੋਰ ਭਾਸ਼ਾ ਵਿਚ ਚਹੁੰਦੇ ਹੋ।

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Cymru a Lloegr

NPD/010/2002

CWYNO

NATIONAL PROBATION SERVICE
GWASANAETH PRAWF CENEDLAETHOL
Cymru a Lloegr

Gweithredu'r gyfraith, ailsefydlu troseddwyr a diogelu'r cyhoedd

Mae cael pethau'n iawn yn bwysig i ni

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cadw at safonau uchel ac rydym yn gobeithio bod hynny'n amlwg yn ein gwaith gyda chi.

Mae hynny'n ddigon teg – ond beth os oes gen i gŵyn?

Os ydym i ystyried eich cŵyn, rhaid iddi fod am rywbeth a wnaed neu a benderfynwyd gan staff prawf, y Bwrdd Prawf lleol, aelod o'r bwrdd, contractwr, asiant neu wirfoddolwr sy'n gweithio i'r gwasanaeth prawf. Fe allwch chi gwyno hefyd am unrhyw un o'r bobl yma sy'n methu gwneud neu benderfynu rhywbeth.

Fe allwn ni ystyried eich cŵyn fel a ganlyn:

- os ydych neu os ydych wedi bod dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.
- os ydych neu os ydych ar fin bod yn destun adroddiad cyn dedfrydu neu adroddiad dedfryd penodol.
- os ydych wedi dioddef anaf corfforol, gofid, lladrad neu ddifrod i eiddo oherwydd gweithredoedd troseddwr dan oruchwyliaeth neu ar drwydded neu orchymyn cymunedol.
- os ydych wedi dioddef oherwydd rhywun a farnwyd yn euog o drosedd ac sydd dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.
- os ydych yn rhiant, yn gymar, partner sy'n cyd-fyw, brawd, chaer neu blentyn i rywun, yn y categorïau isod, sydd wedi marw.

Ni allwn ymchwilio i rywbeth sydd eisoes yn cael ei archwilio gan yr Heddlu neu sy'n ddarostyngedig i benderfyniad gan y llysoedd, tribiwnlys statudol, Bwrdd Parôl, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol.

Ni fyddwn fel arfer yn ystyried eich cŵyn os bydd yn ymwneud â rhywbeth a ddigwyddodd ragor na 12 mis yn ôl, neu y gallech fod wedi gwybod amdano flwyddyn yn ôl.

Y peth gorau yw siarad

Wyneb yn wyneb neu dros y ffôn gyda'r person dan sylw.

Os yw hyn yn anodd, gofynnwch am gael ei drafod gydag aelod uwch o'r staff.

Rhoi pin ar bapur



Fe allwch wneud cŵyn ffurfiol ysgrifenedig.

Fe ddylech ei llofnodi a'i hanfon at Brif Swyddog yr Ardal Brawf yn:

O fewn pum niwrnod wedi iddo dderbyn eich llythyr fe fydd y Prif Swyddog yn ysgrifennu i egluro sut bydd eich cŵyn yn cael ei thrin. Fe fydd yn rhoi dyddiad pryd y gallwch ddisgwyl gwybod y canlyniad.

Os ydych yn cwyno am rywbeth yn ymwneud â'r Prif Swyddog, fe ddylech gyfeirio eich llythyr at Ysgrifennydd y Bwrdd Prawf.

Os nad ydych chi'n fodlon ar y canlyniad

Fe allwch chi apelio o fewn 15 niwrnod gwaith wedi i chi dderbyn y canlyniad. Ysgrifennwch at Ysgrifennydd y Bwrdd Prawf. Eglurwch pam rydych chi am apelio. Bydd yr Ysgrifennydd yn cydnabod derbyn eich llythyr o fewn pum niwrnod gwaith wedi iddo ei dderbyn.

Fe fydd panel, yn cynnwys o leiaf un aelod o'r bwrdd, yn ystyried eich apêl. Efallai y bydd yn gofyn am gael cwrdd â chi ac â'r swyddog ymchwilio.